# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

## Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** | 1. Bydd ein tîm yn adolygu'r stoc gan amlygu'r caeau chwarae delwedd uchel er mwyn ystyried cynllun gweithredu.<br><br>2. Bid wedi ei gyflwyno am gefnogaeth grant SPF ac sydd wedi derbyn cefnogaeth. Edrych ar ddarparu rhaglen waith fanwl er mwyn sicrhau cyflwyno gwelliannau o fewn amserlen gofynion grant.<br><br>3. Adolygu trefn fewnol drwy gyflwyno gwasanaeth cynnal a chadw o gaeau chwarae | 1. Gwaith o adolygu stoc wedi digwydd. Angen creu cynllun gweithredu.<br><br>2. Wedi derbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae drwy Llywodraeth Cymru er gwella ansawdd a hygyrchedd mannau chwarae a meysydd chwarae. Gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i gyflwyno gwelliannau.<br><br>3. Gwaith yn mynd rhagddo – trafodaethau gyda Tim Tacluso a Cynnal Tiroedd yn digwydd. | 1. Ydi<br><br>2. Ydi<br><br>3. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4. Parhau i gyd-weithio â Chynghorau Cymuned a Thref fel y gofyn | 4. Gwaith parhaus i gyd-weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Un enghraifft diweddar o hyn ydi ein bod yn y broses o drosglwyddo maes chwarae Maes Tryfan i Gyngor Dinas Bangor. | 4. Ydi |

## <u>Gwynedd Werdd:</u> Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):** | **Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** 23/10/25 | **Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | **Gweithredu ar risgiau llifogydd** | 1. Strategaeth Llifogydd Lleol wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Llywodraeth (disgwyl adborth ar y cynnwys er mwyn cyfarch unrhyw sylw)<br><br>2. Gweithredu ar gynllun gwaith sydd ynghlwm â'r Strategaeth Llifogydd Lleol | 1. Adborth wedi dderbyn gan Llywodraeth ar y Strategaeth a mae ddrafft ymateb mewn lle. Fydd ymateb yn mynd i Llywodraeth Cymru yn Mis Hydref.<br><br>2. Parhau fel gwaith dydd i ddydd | 1. Ydi<br><br>2. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 3. Ymateb i unrhyw faterion sydd yn codi yn ystod y flwyddyn sydd mewn perthynas â'r maes llifogydd | 3. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu gyda Cynghorau Cymuned a Thref er cadarnhau gwaith sydd i ddigwydd yn eu cymuned ynghyd â sgwrs am newidiadau yn y Cynllun Traethlin. | 3. Ydi |
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **Cymunedau Glân a Thaclus** | 1. Cyflwyno system optimeiddio cylchdeithiau fydd yn sicrhau cylchdeithiau glanhau gwasanaethau biniau stryd effeithiol ac effeithlon. Mae'r buddsoddiad yma yn gysylltiedig â'r targedau toriadau/arbedion a'r sefyllfa gorwariant. Felly, bydd disgwyliad i'r system gyfarch y sefyllfa yn rhannol.<br><br>2. Glanhawyr Canol Tref yn weithredol o fewn Arfon a Meirionnydd ac i'w gyflwyno yn Nwyfor. Gwaith monitro effeithlonrwydd ac effaith y trefniant yma i'w gario allan yn ystod y flwyddyn.<br><br>3. Cryfhau perthnasau'r Timau Tacluso drwy gyd-weithio â mudiadau/cymunedau lleol gan roi sylw penodol i ardaloedd agored cyhoeddus. | 1. Y system optimeiddio cylchdeithiau Bartec wedi ei chyflwyno. Camau dylunio yn eu lle gyda treial i'w chyflwyno yn ardal Arfon cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>2. Glanhawyr trefi yn Bangor a Chaernarfon wedi cael eu penodi ac maent wedi bod yn lwyddiant mawr hyd yma. Byddwn yn ymestyn y trefniadau i tref Pwllheli a Porthmadog a hyn ar gyfer y gwanwyn 2026.<br><br>3. Mae'r Timau Tacluso yn parhau i gydweithio gyda Cynghorau Cymuned a thref ynghyd â cheisiadau gan aelodau'r Cyngor. Byddwn yn y flwyddyn newydd yn mynychu cyfarfodydd | 1. Ydi<br><br>2. Ydi<br><br>3. Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | <br><br><br>4. Moderneiddio Fflyd Glanhau er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar hurio ynghyd â sicrhau bod y gweithlu â'r cerbydau pwrpasol er cyflawni'r gwaith. | Cynghorau Cymuned a Thref er derbyn adborth gennynt am waith y Timau Tacluso.<br><br>4. Wedi pwrcasu 8 peiriant ysgubo ffordd pwrpasol. | <br><br><br>4. Ydi |